

# CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Mawrth 12, 2019 am 7.30 o'r gloch.

## AGENDA

### Gweddi

#### 1. Ymddiheuriadau:

#### 2. Datgan diddordeb:

#### 3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 12, 2019

#### 4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 12, 2019

#### 5. Materion Ariannol

- a. Llythyr (12/2/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud.  
Ffurflen Aelodaeth oddi wrth Un Llais Cymru yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2019 / 2020. Tâl Aelodaeth yw £89.
- b. Llythyr (15/2/2019) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.
- c. Llythyr oddi (14/2/2019) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £400.
- ch. Llythyr (14/2/2019) oddi wrth Theatr Bara Caws cyf yn diolch am ein rhodd o £50. Maent yn perfformio Costa Byw yn Theatr Fach, Dolgellau ar 4/4/2019 am 7.30yh.
- d. Llythyr (13/2/2019) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £50.
- dd. Llythyr (14/2/2016) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £600.
- e. Llythyr (18/2/2016) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £100.
- f. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Cyngor ar Bopeth yn diolch am ein rhodd o £100.
- ff. Llythyr (1/3/2019) oddi wrth Llygad Y Dydd yn diolch am ein rhodd o £100.

g. Llythyr (18/2/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020. Mae'r adroddiad ar we [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2019 i 2020](#) Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhanol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

h. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Maent angen cymorth ariannol.

i. Prisiau derbyniwyd i wella llwybr cyhoeddus o Llanelltyd i'r Golff.

1. Balans yn y banc ar 29 Chwefror, 2019: £7,539.79.

## **6. Mynwent Llanelltyd**

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/65/263E. Amrywio Amod 7 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/263A i newid agoriadau ffenestr / drysau, diddymu ffenestri to, newid lleoliad y ffliw, newidiadau i'r ports, newid deunyddiau'r wal allanol ar y llawr is-ddaear a newid canllaw'r balconi. Allt Fach, Llanelltyd.

## **8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Uwch Syrffwr Stadau yn ymwneud â Safle Ysgol Clogau.

Yng ngweithredoedd yr ysgol mae'r ysgol i gael ei throsglwyddo yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwr gwreiddiol. Maent wedi holi ni ac wedi comisiynu hanesydd i geisio adnabod olynwyr y rhoddwr gwreiddiol. Ni fu'n bosibl i olrain olynwyr ac felly byddent yn gosod rhybuddion mewn dau bapur newydd cenedlaethol, yn y papur lleol ac ar yr eiddo, cyn aros am gyfnod o 3 mis rhag ofn y daw olynwyr i'r fei.

Pe na fydd olynwyr yn cael eu hadnabod, byddent mewn sefyllfa i werthu. Yn unol â'r farn gyfreithiol bydd rhaid dal yr arian ar ymddiriedolaeth er budd yr olynwyr posibl am byth, ond byddent yn ceisio barn bellach ar yr elfen yma.

Byddent yn e-bostio ni ymhellach i gadarnhau'r dyddiadau y bydd y rhybuddion i'w gweld yn y wasg.

Anfonwyd copi o'r llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (20/2/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod bydd gwaith coed, ffensio yn cael ei wneud ar Pont Figra sydd ar lwybr cyhoeddus.

## **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

### **10. Materion Brys**

a. Agorwyd (14/2/2019) drws Toiledau Bontddu i Swyddog oedd yn gweithio ar ran Cyngor Gwynedd i gael dŵr i lanhau'r lle chwarae.

Yn gywir,  
H.M. Edwards, Clerc